

# Gwrandawriad cyn penodi – Yr Ymgeisydd a Ffafrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rôl Cadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru

Medi 2022

## 1. Cyflwyniad

### Gwrandawriadau cyn penodi

1. Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud amrywiaeth o benodiadau cyhoeddus ar draws pob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Mae'r penodiadau hyn yn uchel eu proffil ac yn gyfle i lunio a llywio llawer o'r gwasanaethau cyhoeddus y mae pobl Cymru yn eu defnyddio. Rhaid i Weinidogion Cymru wneud penodiadau cyhoeddus rheoleiddiedig yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Llywodraethu ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus.<sup>1</sup> Mae'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yn gyfrifol am roi sicrwydd annibynnol bod penodiadau yn cydymffurfio â'r Cod.
2. Mae Gweinidogion Cymru a'r Senedd wedi cytuno y dylai Pwyllgorau'r Senedd gynnal gwaith craffu cyn penodi mewn perthynas â rhai penodiadau er mwyn gwella'r broses graffu a sicrhau bod y broses penodiadau cyhoeddus yn fwy tryloyw. Bydd gwaith craffu cyn penodi ar ffurf gwrandawriad cyn penodi'r ymgeisydd a ffafrir yn cael ei wneud gan y Pwyllgor perthnasol.
3. Mae Cadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru yn benodiad cyhoeddus gweinidogol anweithredol statudol (nad yw'n wasanaeth sifil) a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Adran 3 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Deddf 2016).<sup>2</sup>

---

<sup>1</sup> Swyddfa'r Cabinet, [Cod Llywodraethu ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus](#)

<sup>2</sup> Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016. Adran 3



## Awdurdod Cyllid Cymru

**4.** Sefydlwyd Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) gan Ddeddf 2016. Mae ACC yn adran anweinidogol o Lywodraeth Cymru â chyfrifoldeb am weinyddu a chasglu trethi datganoledig yng Nghymru. Mae Deddf 2016 yn nodi bod gan ACC y swyddogaethau a ganlyn:<sup>3</sup>

- darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ymwneud â threthi datganoledig i Weinidogion Cymru;
- darparu gwybodaeth a chymorth yn ymwneud â threthi datganoledig i drethdalwyr datganoledig, eu hasiantiaid a phersonau eraill;
- datrys cwynion ac anghydfodau yn ymwneud â threthi datganoledig; a
- hybu cydymffurfedd â'r gyfraith sy'n ymwneud â threthi datganoledig ac amddiffyn rhag efadu trethi ac osgoi trethi mewn perthynas â threthi datganoledig.

**5.** Ers i ACC ddod yn gwbl weithredol ym mis Ebrill 2018, mae wedi casglu a rheoli dwy dreth ddatganoledig ar ran Llywodraeth Cymru, sef y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, gyda lle iddo ehangu i ysgwyddo cyfrifoldeb am drethi datganoledig pellach yn y dyfodol.<sup>4</sup> Mae Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) yn cael eu gweinyddu a'u casglu ar wahân, gan Gyllid a Thollau EM.

**6.** Diben ACC yw:<sup>5</sup>

- dylunio a darparu gwasanaethau refeniw cenedlaethol Cymru; ac
- arwain y gwell defnydd o ddata trethdalwyr Cymru ar gyfer Cymru.

## Y broses recriwtio

**7.** Ar 4 Mai 2022, cyhoeddodd ACC hysbyseb ar gyfer Cadeirydd y Bwrdd gyda dyddiad cau o 5 Mehefin 2022.

**8.** Rhoddodd ACC gyhoeddusrwydd i'r rôl drwy'r gwefannau a'r platfformau cyfryngau cymdeithasol a ganlyn:

---

<sup>3</sup>Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Adran 12

<sup>4</sup> Awdurdod Cyllid Cymru

<sup>5</sup> Awdurdod Cyllid Cymru

---

- Gwefan Llywodraeth Cymru;
- Gwefan Penodiadau Cyhoeddus Swyddfa'r Cabinet;
- Twitter;
- LinkedIn.

**9.** Hefyd, talwyd am hysbysebion yn y cyfryngau a ganlyn:

- The Guardian;
- Western Mail (Wales Online);
- Golwg 360.

**10.** Yn ogystal, gwnaeth ACC benodi Audeliss Executive Search<sup>6</sup> i gefnogi'r broses recriwtio, o ran dod o hyd i ddarpar ymgeiswyr a chodi ymwybyddiaeth ymysg eu rhwydweithiau eu hunain.

**11.** Y cyfnod ar gyfer gwneud cais oedd tua phedair wythnos, ac roedd yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu CV a datganiad personol yn amlinellu ym mha ffordd y maent yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y disgrifiad swydd. Cafwyd chwe chais, gan ddwy fenyw a phedwar dyn.

**12.** Yn dilyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau, cynhaliwyd sifft gan y Panel Asesu Ymgynghorol (y Panel) a dewiswyd pedwar o'r chwe ymgeisydd ar gyfer asesiad pellach ar ffurf cyfweiliadau panel ffurfiol. Roedd y pedwar a ddewiswyd yn cynnwys un fenyw a thri dyn.

**13.** Dyma aelodau'r Panel a gynhaliodd y sifft a'r cyfweiliadau:

- Dr Andrew Goodall, Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru (Cadeirydd y Panel);
- Anna Adams, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Strategaeth Dreth a Chysylltiadau Rhynglywodraethol, Llywodraeth Cymru
- Moawia Bin-Sufyan, Aelod Annibynnol o'r Panel.

**14.** Cynhaliwyd y cyfweiliadau ar 14 Gorffennaf 2022. Gofynnwyd i'r ymgeiswyr roi cyflwyniad byr ac fe'u holwyd ar y meini prawf a nodwyd ym manyleb y person. Y perfformiadau yn y cam cyfweld yn erbyn y meini prawf y cyfeiriwyd atynt uchod oedd yr unig dystiolaeth a ystyriwyd wrth bennu sgoriau'r ymgeiswyr a'u rhoi yn nhrefn teilyngdod.

---

<sup>6</sup> [Audeliss Executive Search](#)

**15.** O'r pedwar ymgeisydd a gafodd cyfweliad, mae adroddiad y Panel i Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) yn nodi bod dau yn gymwys ar gyfer penodi, gan argymhell yr ymgeisydd â'r sgôr uchaf, sef Ruth Glazzard, fel yr ymgeisydd a ffafrir.

**16.** Cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid wrandawriad cyn penodi gyda'r ymgeisydd a ffafrir ar 22 Medi 2022.

## 2. Gofynion y swydd

### Manyleb y swydd a'r person

**17.** Mae Cadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru yn benodiad a wneir gan Weinidogion Cymru, ac a reoleiddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

**18.** Mae'r pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr yn nodi y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei benodi am gyfnod cychwynnol o dair blynedd, gyda'r posibilrwydd ar gyfer ailbenodi, yn amodol ar benderfyniad gweinidogol.<sup>7</sup>

**19.** Yr ymrwymiad amser a ragwelir yw dau i bedwar diwrnod y mis a chyfradd y tâl yw £400 y dydd (pro rata).<sup>8</sup>

**20.** Fel Cadeirydd ACC, rôl yr ymgeisydd llwyddiannus yw:<sup>9</sup>

- arwain y Bwrdd mewn ffordd sy'n gosod y naws ar gyfer y sefydliad, yn esiampl o ran ymddygiad ac ymagwedd, ac yn ysbrydoli diwylliant ACC;
- arwain mewn ffordd sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth, gan feithrin a hwyluso trafodaeth agored;
- cymhwyso gwybodaeth am arfer gorau traws-sector i heriau ACC;
- gweithio'n agos gyda'r Prif Weithredwr ac aelodau eraill y Bwrdd, i graffu'n gadarn a cheisio sicrwydd bod swyddogaethau ACC yn cael eu harfer yn effeithiol;
- dangos y safonau uchaf o onestrwydd personol;

---

<sup>7</sup> Llywodraeth Cymru, [Swydd wag: Cadeirydd - Awdurdod Cyllid Cymru](#), 4 Mai 2022

<sup>8</sup> Llywodraeth Cymru, [Swydd wag: Cadeirydd - Awdurdod Cyllid Cymru](#), 4 Mai 2022

<sup>9</sup> Llywodraeth Cymru, [Swydd wag: Cadeirydd - Awdurdod Cyllid Cymru](#), 4 Mai 2022

---

- arddangos ymrwymiad i Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (sef Egwyddorion Nolan)<sup>10</sup>, fel llysgennad i ACC; a
- rheoli eich datblygiad eich hun, yn unol â gofynion esblygol y swydd.

**21.** Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fodloni'r meini prawf a ganlyn, fel y'u nodir yn y fanyleb person:<sup>11</sup>

- profiad arwain mewn sefydliadau newidiol neu gymhleth;
- profiad o arwain prosiectau mawr o'u cychwyn, eu datblygu a'u cyflwyno;
- dull arweinyddiaeth gynhwysol, gydweithredol;
- profiad o reoli risg, perfformiad a chyllid; a
- barn gadarn a lefel uchel o onestrwydd, gydag ymrwymiad i saith egwyddorymddygiad mewn bywyd cyhoeddus.

**22.** Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus hefyd ddangos profiad o arwain ac arbenigedd yn un o'r canlynol:<sup>12</sup>

- y defnydd o dechnoleg ddigidol i ysgogi trawsnewid, arloesi neu awtomeiddio prosesau, gan arwain at ganlyniadau gwell;
- defnyddio data i lywio penderfyniadau a/neu wella gwasanaethau;
- datblygiad sefydliadol, neu amgylcheddau gweithredol newidiol neu gymhleth.

**23.** Nodir bod sgiliau Cymraeg yn ddymunol ar gyfer y rôl ac mae rhannu angerdd Awdurdod Cyllid Cymru dros ddefnyddio'r iaith wedi'i amlygu fel rhywbeth pwysig.<sup>13</sup>

---

<sup>10</sup> Llywodraeth y DU, [Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus \(Egwyddorion Nolan\)](#)

<sup>11</sup> Llywodraeth Cymru, [Swydd wag: Cadeirydd - Awdurdod Cyllid Cymru](#), 4 Mai 2022

<sup>12</sup> Llywodraeth Cymru, [Swydd wag: Cadeirydd - Awdurdod Cyllid Cymru](#), 4 Mai 2022

<sup>13</sup> Llywodraeth Cymru, [Swydd wag: Cadeirydd - Awdurdod Cyllid Cymru](#), 4 Mai 2022

---

### 3. Yr ymgeisydd a ffafir gan Lywodraeth Cymru yw: Ruth Glazzard

#### Yr ymgeisydd

**24.** Cafodd y Pwyllgor fanylion am y Ruth Glazzard, yr ymgeisydd a ffafir, ddydd Mawrth 23 Awst 2022. Mae CV Ruth yn dangos bod ganddi dros 20 mlynedd o brofiad yn y sector cyhoeddus a'r sector phreifat a bod ganddi gefndir mewn goruchwyliaeth ariannol, a llywodraethu a datblygu sefydliadol, gan arbenigo mewn sefydliadau digidol, cyhoeddus a thrydydd sector.

**25.** Ar hyn o bryd mae Ruth yn Aelod Annibynnol o Banel Annibynnol Cymru ar Gydnyddiaeth Ariannol. Cafodd ei phenodi i'r rôl ym mis Ebrill 2021. Yn ogystal, mae Ruth yn gyfarwyddwr anweithredol ac yn gadeirydd ar Fyrddau nifer o sefydliadau, gan gynnwys Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol Cymru, ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Mae copi o CV llawn Ruth a ar wefan y Pwyllgor.<sup>14</sup>

**26.** Cynhaliodd y Pwyllgor y gwrandawriad cyn penodi ar 22 Medi 2022<sup>15</sup> gyda'r bwriad o ddeall cymhwysedd proffesiynol yr ymgeisydd a ffafir, pa ddull y byddai'n ei fabwysiadu wrth ymgymryd â'r rôl a pha brofiad ac arbenigedd sydd ganddi sy'n berthnasol i'r rôl.

#### Barn y Pwyllgor

**27.** Ar sail y dystiolaeth a ddaeth i law, mae'r Pwyllgor o'r farn bod Ruth Glazzard yn ymgeisydd addas ar gyfer y swydd ac yn dymuno'n dda iddi yn y swydd hon.

**Conclusion 1.** Ar 22 Chwefror 2022, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid wrandawriad cyn penodi gyda Ruth Glazzard, sef yr ymgeisydd a ffafir gan y Llywodraeth ar gyfer swydd Cadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru. Ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd yn y gwrandawriad hwn, daeth y Pwyllgor i'r casgliad fod Ruth yn ymgeisydd addas ar gyfer y swydd.

---

<sup>14</sup> Y Pwyllgor Cyllid, [FIN\(6\)-17-22.P2 – Cais/CV yr ymgeisydd a ffafir \(Saesneg yn unig\)](#), 22 Medi 2022

<sup>15</sup> Y Pwyllgor Cyllid, [Agenda](#), 22 Medi 2022, Eitem 2

---